# Awgrymiadau da ar gyfer dysgu fel teulu



Mae dysgu gyda'ch gilydd fel teulu yn cael effaith hynod o gadarnhaol ar ymgysylltiad ac agwedd eich plentyn tuag at addysg. Gall fod yn anodd i bob rhiant ddod o hyd i amser, gwybod ble i ddechrau ac i gael ei blentyn i deimlo'n gyffrous, neu hyd yn oed yn fodlon ynghylch dysgu fel teulu. Ar ein gwefan rydym wedi creu rhai syniadau ar gyfer gemau a gweithgareddau byr a hawdd i chi roi cynnig arnynt gartref.

Mae pob gweithgaredd wedi'i gynllunio i addysgu eich plentyn am werth a natur arian, ennill, cynilo a gwario.

Dyma awgrymiadau da i'ch helpu i gefnogi eich plentyn i ddysgu gartref.

## Cadwch bethau'n bositif

Y wers bwysicaf y gallwn ei dysgu gartref yw dod o hyd i werth a mwynhad yn y broses o ddysgu ei hun. Dylech ganolbwyntio ar gydnabod llwyddiant ac osgoi beirniadaeth, er mwyn cadw naws gadarnhaol drwyddi draw.

Yn ystod camau datblygu allweddol, mae annog positifrwydd a hyrwyddo hyder yn llawer pwysicach. Mae positifrwydd yn rhoi'r cymhelliant i bobl ifanc i geisio, ac mae hyder yn rhoi'r gallu iddyn nhw ddod o hyd i'w cryfderau.

## Gosod y cyd-destun

Cymerwch ychydig funudau cyn tasg neu weithgaredd dysgu i gael sgwrs ddwy ffordd am werth y wers, gydag enghreifftiau o achosion lle byddai'r wybodaeth neu'r sgil yn werthfawr. Hyd yn oed os mai dim ond dysgu i ddysgu neu roi cynnig ar bethau newydd i archwilio eich talentau yw'r gwerth, mae cyd-destun yn helpu eich plentyn i gytuno ar y pwysigrwydd.

## Derbyn gwahanol arddulliau dysgu

Er bod plant yn rhannu llawer o rinweddau eu rhieni, rydym i gyd yn unigryw. Rydym yn cyfathrebu, dehongli a dysgu mewn ffyrdd yr un mor unigryw. Mewn amgylchedd ysgol, mae'n amhosibl rhoi'r lefel o ddull gweithredu unigol y gallwn ei greu gartref. Gartref, gallwn roi lle i blentyn archwilio ac arbrofi gyda dulliau gweithredu sy'n gweithio iddo fe. Er enghraifft, mae rhai plant yn hoffi esboniadau manwl, mae rhai angen cynnwys byrrach, mae rhai yn weledol iawn, mae rhai yn cael budd o elfen gorfforol, rhai yn darllen yn well ar sgriniau, rhai ar bapur. Drwy'r gweithgareddau a awgrymir yn ein deunyddiau dysgu, efallai y byddwch yn dechrau darganfod dulliau effeithiol y gallwch eu defnyddio i gefnogi eu gwaith ysgol yn y dyfodol. Cofiwch, nid yw'r hyn sy'n gweithio i chi o angenrheidrwydd yn gweithio iddyn nhw.

## Rhannu llwyddiant

Pan fydd eich plentyn wedi cymryd rhan mewn tasg neu weithgaredd, gallwch atgyfnerthu'r agwedd gadarnhaol honno drwy ei gefnogi a'i annog i rannu ei lwyddiant. Ceisiwch beidio â gosod disgwyliadau o'r hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn 'ganlyniad llwyddiannus' ond yn hytrach gwobrwywch ei ymgysylltiad â'r dasg. Gallwch wneud hyn drwy wobr neu gynllun pwyntiau yn y cartref, rhannu ei waith ar y cyfryngau cymdeithasol (pan ei bod yn ddiogel i wneud hynny) neu ei annog i fynd â'i waith i'r ysgol i'w ddangos i'w athro.



## Byddwch yn hyblyg - newidiwch y cynllun

Cofiwch ystyried y gwahanol arddulliau dysgu a chofiwch fod pawb yn cael dyddiau gwael, mae angen i ni fod yn barod i addasu neu gefnu ar ein cynllun yn hytrach na chreu profiad dysgu negyddol. Os nad yw'r gweithgaredd yn gweithio, rhowch gynnig ar rywbeth arall neu cymerwch hoe a cheisiwch eto yn nes ymlaen.

Efallai y byddwch yn gweld bod eich plentyn wedi dysgu dulliau arbennig sy'n wahanol i'ch profiad ysgol chi. Gall fod yn anodd iawn dysgu lluosi hir i'ch plentyn, er enghraifft, mewn ffordd nad ydych chi yn ei ddeall yn llawn. Os oes ganddo ddull penodol y mae'n ei ddefnyddio, mae'n well peidio â drysu neu ddadlau'n groes, yn lle hynny, gadewch iddo eich dysgu chi. Os nad yw'r dull yn glir, anfonwch e-bost i'r ysgol a gofynnwch am ddolenni neu adnoddau.

## Rhannu profiadau

Mae cyfleoedd dysgu ym mhobman. Ystyriwch yr holl sgiliau y mae eich plentyn wedi'u dysgu y tu allan i'r ysgol, dim ond drwy arsylwi a helpu gartref. Cynhwyswch eich plentyn yn rhai o'ch tasgau dyddiol ac anogwch drafodaeth. Er enghraifft, gallech ofyn i'ch plant helpu gyda'r siopa wythnosol drwy ysgrifennu rhestrau siopa neu gymharu brandiau a phrisiau yn yr archfarchnad.

## Byddwch yn amyneddgar

Mae'n syniad syml ond gall fod yn anodd, ar brydiau. Mae llawer o'r awgrymiadau uchod yn gofyn am amynedd a hunanreolaeth a gall fod yn anodd eistedd a gwylio eich plentyn yn dewis dull nad ydych chi'n credu y bydd yn gweithio. Mae angen i'ch plant archwilio a dysgu yn eu ffordd eu hunain, ac yn aml maen nhw'n ein synnu ni gyda'u dyfeisgarwch.

## Llongyfarch eich hunan

Cofiwch longyfarch eich hunan am eich ymdrechion. Mae'n cymryd amser, egni ac ymarfer i ddysgu fel teulu ac, yn y byd modern, prysur, mae'n aml yn anodd dod o hyd i'r amser a'r egni hwnnw. Mae pob profiad dysgu, yr ydych yn ei rannu gyda'ch plentyn, yn fuddugoliaeth, a dylid ei dathlu. Hyd yn oed pan nad yw pethau'n mynd yn unol â'r cynllun, nid yw eich ymdrechion byth yn ofer. Cymerwch yr amser i longyfarch eich hunan, yn union fel yr ydych yn llongyfarch eich plentyn.

**Diogelwch! Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn ymgymryd â'r gweithgareddau a awgrymir mewn modd diogel, gan ystyried yr amgylchedd yr ydych ynddo ac ymddygiadau eich plentyn unigol. Gan na allwn gynnal asesiad risg unigol, efallai y bydd angen i chi deilwra'r gweithgareddau a awgrymir er mwyn gallu eu mwynhau yn ddiogel. Cymerwch ofal arbennig pan fydd eich plentyn yn defnyddio'r rhyngrwyd, gan sicrhau ei fod yn ymweld â gwefannau cyfrifol a phriodol yn unig**

Cyflwynwyd gan:
Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu



Lle mae cartref yn bwysig
www.sgwadsafiodylan.co.uk